Cyllid & Tollau EM

# Cais i gofrestru ar gyfer TAW Gwerthu o bell

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Defnyddiwch y ffurflen hon i gofrestru ar gyfer TAW yn y DU os ydych yn gwerthu nwyddau aelod-wladwriaeth arall yn yr Undeb Ewropeaidd i bobl nad ydynt yn drethadwy yn y DU. Gelwir hyn yn 'gwerthu o bell'.

I gael rhagor o wybodaeth am werthu o bell, darllenwch adran 6 Hysbysiad TAW 700/01, *'Should I be registered for VAT?'* Ewch i **www.gov.uk/government/publications/vat-notice-7001-should-i-be-registered-for-vat**

## Sut i lenwi'r ffurflen hon

Ysgrifennwch yn glir mewn **inc du** a defnyddiwch **briflythrennau**. Os bydd angen mwy o le arnoch ar gyfer unrhyw atebion, parhewch ar ddalen ar wahân. Os bydd angen cyngor arnoch, mae croeso i chi ffonio ein Llinell Gymorth TAW ar **0300 200 3705**.

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi anfon ffurflenni eraill a gwybodaeth atodol atom, yn ogystal â'r ffurflen hon. Rhoddir gwybod i chi'r hyn sydd ei angen arnom wrth i chi fynd drwy'r ffurflen. Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni sydd eu hangen arnoch o **www.gov.uk** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth TAW.

## Ynglŷn â'r person neu'r sefydliad sy'n gwerthu o bell yn y DU

**1** **Statws y busnes** Defnyddiwch briflythrennau

**Unig berchnogion:** rhowch eich enw llawn - enw(au) cyntaf wedyn eich cyfenw

**Partneriaethau:** rhowch eich enw masnachu. Fel arall, os nad oes gennych enw masnachu, rhowch enwau llawn pob partner. Rhaid i bartneriaethau hefyd gwblhau ffurflen VAT2, 'Manylion partneriaeth', a'i hamgáu gyda'r ffurflen hon.

Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch ddalen ar wahân.

**Cyrff corfforedig neu anghorfforedig:** rhowch enw'r cwmni, clwb, cymdeithas, ymddiriedolaeth, elusen

**2** **Os oes gan y busnes enw masnachu, nodwch yr enw yma**

**3** **Os yw'r busnes yn gorff corfforedig, rhowch y manylion canlynol o'r Dystysgrif Ymgorffori**

Rhif y dystysgrif

Dyddiad ymgorffori DD MM BBBB

Gwlad ymgorffori

**4** **Cyfeiriad y busnes** Defnyddiwch briflythrennau

Rhowch gyfeiriad eich prif fan busnes.
Eich prif fan busnes yw'r lleoliad lle rydych yn derbyn ac yn delio gyda'ch archebion, ac yn cynnal eich busnes o ddydd i ddydd. Rhaid i chi beidio â defnyddio Blwch Post, cyfeiriad llety na chyfeiriad 'drwy law' gan na fyddwn yn derbyn y rhain.

Cod post

**5** **Manylion cyswllt y busnes**

Rhif ffôn cyswllt

Rhif ffôn symudol

Rhif ffacs

Cyfeiriad e-bost

Cyfeiriad y wefan

www.

## Ynglŷn â'r cynrychiolydd treth neu'r asiant

**6 A ydych wedi penodi cynrychiolydd treth neu asiant yn y DU i weithredu ar eich rhan?** Ticiwch un blwch

Do ☐ Naddo ☐

Os 'Do', llenwch y blychau isod.

Os yw'r cynrychiolydd treth rydych yn ei benodi yn unigolyn, rhowch ei enwau cyntaf a'i gyfenw.

Os yw'r cynrychiolydd treth rydych yn ei benodi yn bartneriaeth, rhowch enw llawn y ffyrm, neu os nad oes enw ar gyfer y ffyrm, rhowch enwau'r partneriaid.

Os yw'r cynrychiolydd treth rydych yn ei benodi yn gwmni, rhowch enw'r cwmni.

Bydd yn rhaid i chi hefyd lenwi ffurflen VAT1TR, *'Appointment of Tax Representative'*.

Os ydych yn penodi asiant i weithredu ar eich rhan, rhowch enw'r asiant yn y blwch hwn. Cofiwch - bydd angen llythyr awdurdodi arnom sydd wedi'i lofnodi gennych a'n rhoi manylion y person rydych wedi'i benodi. I gael awgrym enghreifftiol o sut i'w eirio, darllenwch baragraff 11.5 Hysbysiad TAW 700/1, *'Should I be registered for VAT?'*.

Rhowch enw, cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt y cynrychiolydd treth neu'r asiant treth isod.

**Enw** Defnyddiwch briflythrennau

**Cyfeiriad** Defnyddiwch briflythrennau

Cod post

**Rhif ffôn cyswllt**

## Ynglŷn â'r busnes

**7 Eich prif weithgareddau busnes**

Rhowch ddisgrifiad llawn o'r math o nwyddau rydych yn eu cyflenwi, neu'n bwriadu eu cyflenwi, i'ch cwsmeriaid yn y DU, a ph'un a yw eich cyflenwadau yn rhai cyfanwerthol neu'n fanwerthol.

## Manylion y cyfrif

Os nad oes gennych gyfrif banc yn y DU, esboniwch pam ar ddalen bapur ar wahân. Bydd cael cyfrif banc yn y DU yn cyflymu'r broses o gofrestru ar gyfer TAW a'r broses o ad-dalu TAW sy'n ddyledus i chi.

Mae'n rhaid i'r cyfrif fod yn enw'r busnes rydych yn ei gofrestru neu eich cynrychiolydd treth (**nid asiant**). Byddwn yn talu ad-daliadau i mewn i'r cyfrif hwn. Os rhowch fanylion cyfrif eich cynrychiolydd treth i ni, byddwn yn talu ad-daliadau yn uniongyrchol i mewn i'r cyfrif banc hwnnw.

Sylwer - ni all rhai cyfrifon dalu na derbyn taliadau trwy'r dull hwn, felly trafodwch gyda'ch banc neu gymdeithas adeiladu os ydych yn ansicr.

**8 Os oes gennych chi neu'ch cynrychiolydd treth fanylion banc yn y DU, rhowch nhw yma**

Enw'r cyfrif

Rhif y cyfrif banc/cymdeithas adeiladu

Cod didoli

☐☐ – ☐☐ – ☐☐

## Cyfrifyddu ar gyfrifiadur

Dylech gynnwys taenlenni o dan y categori hwn drwy ddangos yr enw perchnogol yn y blwch meddalwedd. Os nad ydych yn defnyddio cyfrifiadur ar hyn o bryd, ond byddwch rywbryd yn y dyfodol, dylech roi'r manylion hyn i ni ar bapur y pryd hynny.

**9 A ydych yn defnyddio cyfrifiadur ar gyfer cyfrifyddu?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

Ticiwch 'Ydw' os ydych yn cadw cofnodion ar gyfrifiadur, a rhowch fanylion y feddalwedd a fersiwn y pecyn rydych yn ei ddefnyddio.

## Ynglŷn â'ch gwerthu o bell

Os oes rhaid i chi gofrestru ar gyfer TAW yn y DU gan fod gwerth eich gwerthiannau o bell i'r DU wedi mynd dros y trothwy ar gyfer gwerthu o bell yn ystod blwyddyn calendr, y dyddiad a rowch ym mlwch 10 yw'r un pan aeth eich gwerthiannau dros y trothwy. Byddwn yn eich cofrestru ar gyfer TAW yn y DU o'r dyddiad hwn ymlaen.

Os ydych wedi dewis y DU fel y man cyflenwi, mae'n rhaid i chi gofrestru o'r dyddiad rydych yn cyflenwi gyntaf yn dilyn yr opsiwn. Dyma'r dyddiad rydych yn ei roi ym mlwch 12b isod.

Os ydych yn gwerthu nwyddau ecseis o bell i'r DU, mae'n rhaid i chi gofrestru o'r dyddiad rydych yn cyflenwi gyntaf. Dyma'r dyddiad rydych yn ei roi ym mlwch 13.

Os ydych am gael eich cofrestru o ddyddiad cynharach, llenwch flychau 10 i 13 fel sy'n briodol. Rhowch y dyddiad cynharach ym mlwch 14 ac yna ewch i flwch 15.

**Pwysig**

Os ydych yn gwneud cais am ddyddiad cofrestru cynharach, ac rydym yn ei gytuno, dyma'r dyddiad y bydd eich cofrestriad yn dod i rym. Ni fyddwch yn gallu newid eich meddwl yn hwyrach, felly gwnewch yn siŵr, os ydych yn dewis dyddiad cynharach, mai hwn yw'r dyddiad rydych am gael eich cofrestru ohono. Chi fydd yn gyfrifol am unrhyw dreth o'r dyddiad hwn.

**10** **A yw gwerth eich gwerthiannau o bell i gwsmeriaid yn y DU wedi mynd dros drothwy'r DU ar gyfer gwerthu o bell ar unrhyw adeg yn ystod blwyddyn galendr sy'n cychwyn ar 1 Ionawr?**

Nac ydy ☐ Ydy ☐

Os 'Nac ydy', ewch i gwestiwn 11

Os 'Ydy', rhowch y dyddiad yr aethoch dros y trothwy

DD MM BBBB

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

**11** **A ydych wedi rhoi'r opsiwn i bennu'r DU fel y man cyflenwi ar waith, neu'n bwriadu rhoi'r opsiwn ar waith?**

Naddo ☐ Do ☐

Os 'Naddo', ewch i gwestiwn 13

Os 'Do', rhowch y wlad yn yr Undeb Ewropeaidd lle rydych wedi rhoi'r opsiwn ar waith ynddi, neu'n bwriadu rhoi'r opsiwn ar waith ynddi

☐

**12a** **Y dyddiad y gwnaethoch roi'r opsiwn ar waith, os yw'n berthnasol**

DD MM BBBB

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

**12b** **Y dyddiad y gwnaethoch gyflenwi'r DU gyntaf, neu'r dyddiad rydych yn bwriadu gwneud hynny, yn dilyn yr opsiwn hwn**

DD MM BBBB

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

**13** **A ydych yn bwriadu gwerthu nwyddau o bell i'r DU sy'n agored i Doll Ecseis?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os 'Nac ydw', ewch i gwestiwn 14

Os 'Ydw', rhowch ddyddiad amcangyfrifedig eich cyflenwad ecseis cyntaf yn y DU

DD MM BBBB

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

**14** **Dyddiad cynharach yr hoffech gael eich cofrestru ar gyfer TAW yn y DU**

DD MM BBBB

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

**15** **Gwerth amcangyfrifedig y gwerthiannau o bell rydych yn disgwyl eu gwneud i'r DU yn ystod y 12 mis nesaf**

Rhowch y gwerth blynyddol a ragwelir ar gyfer y nwyddau rydych yn disgwyl eu cyflenwi i'r DU o dan y trefniadau gwerthu o bell.

£ ☐☐☐☐☐☐☐☐ . ☐☐

## Manylion yr ymgeisydd a datganiad

Rhaid i'r adran hon gael ei llenwi gan naill ai:

- unig berchennog y busnes, neu bartner
- cyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni, neu lofnodwr awdurdodedig corff corfforedig
- swyddog sy'n gwneud cais ar ran corff anghorfforedig, er enghraifft, ysgrifennydd, ymddiriedolwr
- asiant awdurdodedig

Os yw'r ffurflen hon yn cael ei llofnodi gan lofnodwr awdurdodedig, neu asiant awdurdodedig, rhaid dangos manylion yr unigolyn sy'n eich awdurdodi yng nghwestiwn 16.

**16 Manylion yr ymgeisydd**

Enw - enw cyntaf wedyn y cyfenw

Cyfeiriad cartref

Cod post

Os ydych wedi byw yn y cyfeiriad hwn am lai na 3 blynedd, nodwch fanylion eich cyfeiriad blaenorol

Cod post

Rhif ffôn cartref

Dyddiad geni DD MM BBBB

Rhif Yswiriant Gwladol

Os ydych yn wladolyn o wlad nad yw'n rhan o'r DU ac nad oes rhif Yswiriant Gwladol gennych, nodwch eich rhif adnabod treth yn y wlad y cawsoch eich geni ac enw'r wlad honno

### Datganiad

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon, ac ar ddogfennau atodol, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Enw Defnyddiwch briflythrennau

Llofnod

Statws - ticiwch un blwch

- Perchennog
- Partner
- Cyfarwyddwr
- Ysgrifennydd y cwmni
- Swyddog awdurdodedig
- Cynrychiolydd treth neu asiant treth yn y DU sydd wedi'i benodi
- Ymddiriedolwr

## Ble i anfon eich ffurflen(ni) ar ôl ei/eu llenwi?

Anfonwch y ffurflen(ni) ar ôl ei/eu llenwi i:

Gwasanaeth Cofrestru TAW/VAT Registration Service
Cyllid a Thollau EM/HM Revenue and Customs
Crown House
Birch Street
WOLVERHAMPTON
West Midlands
WV1 4JX

## Ynglŷn â Chyllid a Thollau EM

**Eich hawliau a'ch ymrwymiadau**
Am esboniad o'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan CThEM, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi, darllenwch **Eich Siarter**.

**Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch**
Mae CThEM yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae CThEM yn cadw gwybodaeth at y dibenion a fanylir yn eu cylch yn ei hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys at ddibenion asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y bydd CThEM yn cael gwybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y bydd yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw. Os yw'n gwneud hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y bydd CThEM yn cymharu gwybodaeth y mae'n ei gael amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gallai hynny gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fydd CThEM yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i CThEM oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth darllenwch yr arweiniad ar ddiogelu data.